# Trosglwyddo contract (Cyfnewid)

Hyn ydi pan fydd deiliad contract diogel (tenant) yn trosglwyddo'r contract meddiannaeth, gan gynnwys y hawliau a chyfrifoldebau o'r contract i deiliad contract diogel arall gyda chaniatâd y landlord. Rhaid i landlordiaid yr holl ddeiliaid contract diogel (tenantiaid) sy'n rhan o'r trosglwyddiad fod yn landlord cymunedol.

Mae hyn fel arfer yn golygu bod y deiliaid contract yn cyfnewid cartrefi.

## Sut i drosglwyddo contract?

Ar ôl i chi ddod o hyd i rywun yr hoffech drosglwyddo'r contract gyda, a'ch bod yn barod i symud ymlaen, bydd angen i chi lenwi 'Ffurflen cais i drosglwyddo (NSf54c)' sydd ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu gyda ni i gael copi.

**Pwysig:** Ni ddylech godi tâl na orfod talu i drosglwyddo eich contract.

## Beth sy'n digwydd nesaf? Byddwn yn:

- Cadarnhau yn ysgrifenedig ein bod wedi derbyn eich cais.
- Asesu eich cais. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau gyda thimau rhent, gwasanaeth bro a chydymffurfio yn ogystal â landlord(iaid) cymunedol eraill yn ôl yr angen.
- Gofyn am eirda gan landlordiaid eraill (os nad ni ydi eich landlord).
- Lle mae angen, cynnal asesiad fforddiadwyedd gyda chi.
- Trefnu asesiad gan Therapydd Galwedigaethol ar gyfer unrhyw gartrefi sydd ag addasiadau (os oes angen).
- Gofyn i chi am fwy o wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich cais yn ôl yr angen.
- Rhoi penderfyniad cychwynnol yn ysgrifenedig o fewn un mis o gael yr holl wybodaeth.
- Archwilio cyflwr eich cartref.
- Cynnal gwiriadau diogelwch nwy a thrydan.
- Trefnu i chi lofnodi'r holl waith papur angenrheidiol.

adra.co.uk | 0300 123 8084 |
@adrataicyf | ymholiadau@adra.co.uk

## Hawl i drosglwyddo

Gall Adra wrthod caniatâd i drosglwyddiad a bydd yn ystyried sawl peth wrth benderfynu ar wrthod caniatáu neu beidio, gan gynnwys os oes unrhyw amodau o'r contract meddiannaeth wedi'i dorri ac yn y blaen.

Ni fyddwn yn gwrthod caniatâd heb reswm da. Byddwn yn egluro'r rheswm am ein penderfyniad os caiff eich cais i drosglwyddo ei wrthod.

Bydd penderfyniadau yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Os caiff y cais ei ganiatáu rhaid:

- I'r trosglwyddiad fod heb unrhyw gost i ni.
- Derbyn yr eiddo fel y mae'n cael ei weld.

Byddwn o bosib yn rhoi caniatâd ar y sail bod:

- Unrhyw broblemau yn berthnasol i gyflwr eich cartref yn cael eu datrys cyn y trosglwyddiad.
- Unrhyw ôl-ddyledion yn cael eu talu cyn y trosglwyddiad.

## Pwysig:

Bydd pob deiliaid contract (tenantiaid) angen caniatâd ysgrifenedig gan eu landlord a llofnodi'r holl ddogfennau cyfreithiol perthnasol CYN y trosglwyddiad.

Os ydach chi'n symud heb ein caniatâd, byddwch yn torri eich contract meddiannaeth ac byddwch yn peryglu eich contract meddiannaeth (tenantiaeth).

Os ydach chi'n symud cyn llofnodi'r gwaith papur cyfreithiol, ni fydd y trosglwyddiad yn ddilys a byddwn yn gofyn i chi symud yn ôl.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

adra.co.uk | 0300 123 8084 |
@adrataicyf | ymholiadau@adra.co.uk